**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Andrew RT Davies AS,
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

27 Mawrth 2025

Annwyl Andrew,

**Ynghylch deiseb P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru, deiseb P-06-1354 Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru, a deiseb P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion.**

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 10 Mawrth a bu'n ystyried y ddwy ddeiseb uchod ar rasio milgwn, y gyntaf a gyflwynwyd gan Hope Rescue a'r ail gan David Tams, cyn mynd ymlaen i ystyried deiseb ar reoleiddio'r sector steilio cŵn, a gyflwynwyd gan Brian Howell.

Nododd y Pwyllgor fod bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwaharddiad ar rasio milgwn yn glir. Cytunwyd i ysgrifennu atoch fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y pwyllgor arweiniol ar gyfer craffu ar y cynlluniau deddfwriaethol hyn, i roi gwybod i chi am y ddwy ddeiseb ar rasio milgwn.  Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gau'r ddwy ddeiseb hyn.

Er bod mwyafrif yr Aelodau wedi cefnogi'r gwaharddiad, nid yw Joel James AS yn cefnogi gwaharddiad fel y ffordd ymlaen i fynd i'r afael â materion lles anifeiliaid, a nodir ei farn ar Ddeiseb P-06-1253 ym mharagraff 27 o adroddiad y Pwyllgor 'Y Troad Terfynol?' yn 2022.

Wrth drafod y tair deiseb nodwyd bod ymgynghoriad ehangach wedi'i gynnal ar Drwyddedu Sefydliadau, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Lles Anifeiliaid, a oedd yn cynnwys trwyddedu'r sector steilio cŵn, a bod angen gwaith craffu manwl ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer materion lles anifeiliaid fel rhan o'r ymgynghoriad ehangach hwnnw.

O ran Deiseb P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion, cytunwyd y byddwn i'n ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i ofyn am ragor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer darparu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid Llywodraeth Cymru, i ymdrin â thrwyddedu'r sector steilio cŵn.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn ystyriaeth y Pwyllgor o'r tair deiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor yma:

P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

P-06-1354 Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru

P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion

Yn gywir,



Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Cyflwyno rheoleiddio'r sector ymbincio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.